Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Carreg Hirfaen
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
Sir Gaerfyrddin
SA48 8EP

02/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Carreg Hirfaen yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Rhannu arfer dda ar draws yr ysgol mewn perthynas â'r dulliau effeithiol sy'n bodoli lle mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i rannu arfer dda ar draws yr ysgol mewn perthynas â dulliau adborth effeithiol yn llwyddiannus.
- Maent wedi cefnogi rhannu arfer dda drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol, craffu ar lyfrau ac arsylwi ar yr addysgu a dysgu i gefnogi cysondeb yng ngweithdrefnau adborth yr ysgol.
- Mae staff wedi addasu'r polisi adborth ac mae eu gweithgareddau addysgu a dysgu yn cefnogi'r polisi yn effeithiol. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r polisi a'r cod marcio. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymateb i adborth yn bwrpasol a gwella eu gwaith yn gyson.
- Drwy weithdrefnau monitro manwl a rheolaidd i werthuso ansawdd, mae arweinwyr yn addasu ffocws blaenoriaethau'r ysgol yn fwriadus i sicrhau amgylchedd o welliant parhaus.

- Bellach mae arweinwyr, ar y cyd ag ysgolion eraill, yn edrych ar ansawdd adborth ar agwedd benodol o lythrennedd. Mae athrawon yn cydweithio i fireinio gweithdrefnau adborth yr ysgol ymhellach. Mae'r datblygiadau hyn yn gymharol newydd ac, o ganlyniad, yn rhy gynnar i fesur effaith ar gynnydd ym medrau'r disgyblion.

**Cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn amrywiol feysydd a chyd-destunau diddorol**

- Mae arweinwyr wedi adnabod yn briodol yr angen i hyfforddi staff mewn agweddau o addysgu mathemateg a rhifedd. Maent wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i'r staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgeg briodol, gan gynnwys y pum hyfedredd.
- Erbyn hyn, mae gan y staff ddealltwriaeth fwy cadarn, a hyder cynyddol o ran sut i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg mewn cyd-destunau sy'n gyfarwydd iddynt.
- Mae staff y dysgu sylfaen yn darparu amgylchedd cyfoethog sy'n cefnogi datblygiad medrau rhifedd disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad parhaus at adnoddau mathemategol a bod ganddynt heriau addas i'w datrys gyda'r adnoddau hyn.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg wrth ddatrys problemau perthnasol sy'n cyd-fynd â'r themâu. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau bod y cyd-destunau yn gyfarwydd ac yn berthnasol i'r disgyblion, gan gyfuno meysydd dysgu a phrofiad yn fedrus.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhif yn gyson drwy sesiynau a gweithgareddau dysgu mathemateg. Ar y cyfan, maent yn eu cymhwyso'n  hyderus mewn amryw gyd-destunau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692386](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692386)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol